**ATODIAD B**

**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Cynllunio Dwyfor** |
| **DYDDIAD** | **14 Ionawr 2013** |
| **TEITL** | **RHEOLI MAN PARCIO NEUADD Y DREF GER RHODFA'R ESGOB, BANGOR, O DAN DELERAU AC AMODAU GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD Y CYNGOR** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Fod y Pwyllgor Cynllunio yn cymeradwyo'r cynnig i gynnwys yr ardal parcio yn Neuadd y Dref, Bangor ar Orchymyn Cyngor Gwynedd (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 1997 Gorchymyn Amrywio (Nifer o Safleoedd) 2013.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cefnogi Cynnig Cyngor** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd William Gareth Roberts** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i aelodau ynghylch dyfodol rheolaeth a gorfodaeth ym man parcio Neuadd y Dref, sydd ger Rhodfa'r Esgob, Bangor.

1.2 Mae cynllun lleoliad, yn dangos yn union ymhle y mae’r man parcio hwn, yn **Atodiad A**.

1.3 Bydd aelodau’n cofio fod yr adeilad yn un rhestredig, a’i fod ym mherchnogaeth ac yn cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd lle mae swyddfeydd nifer o wasanaethau hanfodol, er enghraifft, Cofrestryddion Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau'r Cyngor a gwasanaethau cefnogi pobl a'r digartref.

1.4 Mae llawer iawn o ymwelwyr yn ymweld â’r adeilad, llawer angen cymorth brys, gwasanaethau hanfodol a chymorth lles yn ystod y dydd.

1.5 Gall tua 30 o gerbydau barcio yn y man parcio o flaen yr adeilad. Fodd bynnag, mae’r man parcio yma’n cael ei gamddefnyddio’n rheolaidd ac mae rhai aelodau o’r cyhoedd yn ei weld fel lle parcio hwylus, yn enwedig gan rai heb unrhyw gysylltiad na dyhead i ymweld â’r adeilad.

1.6 O ganlyniad, mae’r man parcio’n cael ei dagu a hynny’n arwain at gerbydau’n cael eu parcio ar leiniau glas cyfagos a blocio llwybrau troed

a'r ffordd i mewn gan gynyddu'r perygl o ddamweiniau a'i gwneud yn beryglus i gerddwyr.

1.7 Gan nad oes yna reoliadau parcio yn y fan hyn, ni ellir gwneud gwaith gorfodi i ddatrys y problemau uchod.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Maer cryn dipyn o gamddefnydd wedi bod ar y man parcio yn ystod y ddegawd ddiwethaf sydd wedi ennyn llawer iawn o gwynion oddi wrth wasanaethau'r Cyngor a chan y cyhoedd.

2.2 Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau fod digon o le parcio yn Neuadd y Dref i ddefnyddwyr dilys y man parcio, yn enwedig yr anabl a rhai'n gyda choetsis plant.

2.3 Gwnaed sawl peth i geisio gwella'r sefyllfa yn Neuadd y Dref, megis codi arwyddion, gosod llinellau melyn dwbl mewn un man allweddol a rhannu *nodiadau rhybuddio* i geisio lleihau parcio anghyfreithlon.

2.4 Ychydig, os dim, effaith a gafodd hyn ac mae'r broblem, felly, yn dal heb ei datrys.

2.5 O gofio fod y Cyngor wedi cael pwerau gorfodi parcio sifil, ystyrir y dylid mabwysiadau agwedd gadarnach i ddatrys y broblem gynyddol waeth o gamddefnyddio a ddisgrifir uchod.

2.6 Mae'n werth cofio y byddai'r gwasanaethau brys hefyd yn cael trafferth i barcio ac i gael at yr adeilad, oherwydd parcio anystyriol, pe byddai argyfwng yn codi.

## 3. Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

3.1 Bydd aelodau'n cofio fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwerau i Gyngor Gwynedd i orfodi cyfyngiadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd sy'n dod o dan y Gorchymyn perthnasol. Yn ei hanfod, mae Gorchmynion o'r fath yn caniatáu gorfodi o dan Ran 6 Deddf Rheoli Traffig 2004.

3.2 Mae yna gyfrifoldeb ar y Cyngor i wella'r sefyllfa ac mae hynny'n cynnwys ei gwneud yn ddiogel i gerddwyr, a'r rhai sy'n cael trafferth i symud, fynd a dod o'r adeilad heb orfod symud rhwng cerbydau, llawer wedi parcio'n ddwbl y tu allan i fannau parcio swyddogol.

3.3 Er mwyn gwella hyn, bwriada'r Cyngor weithredu ei bŵer o dan Reolau Gorfodi Parcio Sifil drwy gyflwyno Rhybuddion Talu Cosb a chyflwyno trwyddedau i barcio yn y mannau parcio i swyddogion sy'n gweithio yn yr adeilad a datblygu system ar gyfer ymwelwyr dilys â Neuadd y Dref sy'n cyrraedd mewn cerbydau modur.

3.4 Y rheswm dros wneud y Gorchymyn, o’r enw “Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 1997 Gorchymyn Amrywio (Nifer o Safleoedd) 2013” yw oherwydd bod ei angen i reoli asedau parcio ac i sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau parcio a fydd yn cael eu harddangos ar safleoedd.

3.5 Mae’r broses gyfreithiol o ran hysbysebu’r cynigion wedi dechrau a bydd manylion llawn y cynigion yn cael eu harddangos yn y mannau canlynol cyn bo hir.

- Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Dref, Bangor
- Y Llyfrgell Gyhoeddus, Bangor
- Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon
- Ar y safle parcio dan sylw.

## 4. Y CYNNIG

4.1 O gofio am yr wybodaeth a gyflwynwyd, ac yn unol â gweithdrefnau’r Cyngor, mae’r Cyngor yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau i symud ymlaen â’r bwriad i gynnwys y man parcio ar “Orchymyn Cyngor Gwynedd (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 1997 Gorchymyn Amrywio (Nifer o Safleoedd) 2013”.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Fod Aelodau’n cymeradwyo’r cynnig, gan y bydd hyn yn awdurdodi’r Cyngor i reoli parcio ar y safle a defnyddio pwerau gorfodaeth pan yn briodol.